
# Bwletin y Farchnad HCC

Ionawr 2021

**Gwnaed Arolwg Mehefin 2020 gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig Covid-19. Oherwydd hynny, defnyddiwyd holiadur llai manwl a oedd yn ymwneud â'r newidynnau allweddol yn unig. Serch hynny, mae'r wybodaeth hon yn rhoi syniad da o'r sefyllfa o ran niferoedd y da byw yng Nghymru. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau.**

## GWARTHEG


Mae canlyniadau Arolwg Mehefin 2020 yn dangos cynnydd o 0.2% i 1,122,400 pen mewn blwyddyn yn niferoedd y gwartheg a lloi yng Nghymru. Oddi mewn i'r cyfanswm hwn, cafwyd gostyngiad o 1.1% i 162,000 pen yn niferoedd y fuches fagu gig eidion (gwartheg cig eidion benyw dros ddwyflwydd oed a oedd wedi lloia), ond cafwyd cynnydd o 0.3% i 252,200 pen yn niferoedd y fuches odro. Fel canlyniad, roedd y fuches fagu yng Nghymru (sy'n cynnwys y buchesi magu cig eidion a godro) yn 0.3% yn llai nag ym mis Mehefin 2019, ac yn llai nag a fu er 2015.




Roedd y gostyngiad mwyaf, sef 6.8% (neu 3,100 o wartheg) i 42,100 o wartheg, yn y gwartheg godro benyw dros ddwyflwydd oed heb fagu. Yn y fuches gig eidion, roedd y gostyngiad yn 2.1% i 42,000 pen. Nid yw'n eglur faint o'r gwartheg benyw hyn fydd yn dod yn rhan o'r fuches fagu, ond gyda'r gwartheg gwryw dros ddwyflwydd oed – lle cafwyd gostyngiad o 1.5% – mae'r ystadegau'n awgrymu fod y galw cynyddol am gig eidion ym misoedd Mawrth ac Ebrill y llynedd wedi arwain at gynnydd. Cymharol sefydlog fu niferoedd y gwartheg rhwng 13 a 24 mis oed gyda gostyngiad o ddim ond 0.1% i 258,000 pen. Cafwyd gostyngiad o 2.1% yn nifer y gwartheg godro benyw a chynnydd o 2.6% yn niferoedd y gwartheg benyw cig eidion. Roedd nifer y gwartheg o dan 12 mis oed yn 329,500 pen, sef cynnydd o 2.6%.


## DEFAID

Mae Arolwg Mehefin yn cadarnhau fod 2.8% yn llai o ŵyn wedi eu geni yng Nghymru, gan roi cyfanswm o 4.51 miliwn. Dyma'r nifer leiaf yng Nghymru ers 2011. Ar 1 Mehefin 2020, fodd bynnag, roedd yr ŵyn hyn yn cyfrif am 50.2% o gyfanswm yr holl ddefaid, ac roedd hynny'n gyfran uwch nag yn y blynyddoedd diwethaf, sef 48.7% yn 2019 a 48.1% yn 2018.





Am fod Arolwg Mehefin 2020 wedi ei gynnal yn ystod y pandemig Covid-19, dim ond y newidynnau allweddol a gafodd sylw ac felly nid oedd y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau o ddefaid dros flwydd oed ar gael. Serch hynny, roedd cyfanswm y defaid dros flwydd oed yn 4.48 miliwn, sef gostyngiad sylweddol o 8.4% o'r naill flwyddyn i'r llall. Er bod hyn yn ostyngiad dramatig, dylem fod yn ofalus wrth adolygu'r niferoedd hyn am fod y geiriad wrth gasglu'r data yn wahanol yn 2020. Roedd y gostyngiad yn nifer yr ŵyn a'r gostyngiad sylweddol yn nifer y defaid dros flwydd oed wedi cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol o 5.7% yng nghyfanswm niferoedd y defaid ac ŵyn yng Nghymru ar 01 Mehefin 2020, sef 9.0 miliwn. Oddi ar 2013, mae nifer yr holl ddefaid ac ŵyn yng Nghymru wedi bod yn gymharol sefydlog o'r naill flwyddyn i'r llall – gydag ychydig o frig (10.0 miliwn) yn 2017. Mae'r cyfanswm ar gyfer 2020 yn is nag a fu yn ystod yn blynyddoedd diwethaf, ac mae'n debyg i'r hyn ydoedd ar gyfer y ddiadell Gymreig yn 2012.

**Nifer yr Ŵyn (o dan flwydd oed) yng Nghymru ar 01 Mehefin**






## MOCH

Ar 01 Mehefin 2020, roedd 28,400 o foch yng Nghymru, sef cynnydd sylweddol o 16.4% (4,000 o foch) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am y cynnydd hwn oedd bod 20.5% yn fwy o foch pesgi - cyfanswm o 25,470 pen - na'r flwyddyn flaenorol. Moch pesgi sydd fwyaf niferus erioed yn y genfaint foch yng Nghymru, ac ar 01 Mehefin 2020, roedd bron 90% o'r holl foch yn foch pesgi. Dyma'r gyfran uchaf erioed o foch pesgi. Roedd cyfanswm nifer y moch magu ar ddaliadau yng Nghymru yn 3,000 pen - gostyngiad o 10.3% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Mae Arolwg Mehefin wedi dangos taw'r rheswm am y cynnydd yn niferoedd y moch oedd bod nifer fach o ddaliadau'n cadw nifer fawr o foch yn 2020, wrth i ffermydd arallgyfeirio a throi at unedau pesgi yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis.



**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Daeth 2020 i ben â phrisiau uchel, ac mae'r duedd hon wedi para ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 207.3c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Ionawr - 1.2c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris cyfredol yn 22c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl, ac yn 21.2c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 186.1c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Ionawr, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 374.8c/kg, sef 4.4c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 48.4c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 373.6c/kg (3.9c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol), teirw ifainc yn 360.8c/kg (+8.7c), a'r pris am fuchod difa oedd 242.8c/kg (+7.3c).

Lladdwyd cyfanswm o 225,000 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Rhagfyr, sef 3.5% yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2019. Roedd nifer y gwartheg dethol a laddwyd yn y mis yn 162,600 (sef cynnydd o 1.6%), a lladdwyd 0.8% yn fwy o wartheg llawn-dwf. Am fod mwy o wartheg wedi cael eu lladd, cafwyd cynnydd o 4.9% yn y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr. Roedd cyfanswm yr holl wartheg a laddwyd yn 2020 yn 2.82 miliwn, sef rhywbeth yn debyg i 2019 (-0.1%), a chynhyrchwyd 931,200 tunnell o gig eidion, sef 1.8% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn dethol yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru yn dal i fod yn dda ar ddiwedd 2020, a pharhaodd felly ar ddechrau 2021. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Ionawr, cafwyd cynnydd o 13.1c yn y pris cyfartalog i gyfartaledd o 260.6c/kg. Mae hyn y 50c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2020, a 78c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 182.4c/kg). Y pris cyfartalog am famogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd £77.80 y famog, sef £4.60 yn uwch na'r wythnos flaenorol a £7 yn uwch na'r wythnos gyfatebol yn 2020. Yn yr wythnos yn diweddu 16 Ionawr, roedd y pris pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 487.0c/kg – 15.1c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.

Lladdwyd cyfanswm o 1.4 miliwn o ddefaid yn lladd-dai'r DU ym mis Rhagfyr, sef 3.7% yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2019. Oddi mewn i'r cyfanswm hwn, lladdwyd 1.3 miliwn o ŵyn dethol (sef 5.3% yn fwy), ond cafwyd gostyngiad o 10.0% yn nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd. Yn sgil y cynnydd yn nifer y defaid a laddwyd yn ystod mis Rhagfyr, cafodd 3.9% yn fwy o gig defaid ei gynhyrchu. Lladdwyd cyfanswm o 13.1 miliwn o ŵyn dethol yn 2020 (gostyngiad o 0.4% wrth gymharu â 2019), ynghyd â 1.5 miliwn o famogiaid a hyrddod difa (gostyngiad o 14.6%). Golygodd hyn fod y cyfanswm o 297,200 tunnell a gynhyrchwyd yn 2020 yn 3.3% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Mae prisiau moch wedi bod yn disgyn oddi ar fis Awst 2020, ac yn dal i wneud hynny eleni. Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 149.2c/kg yn yr wythnos yn diweddu 09 Ionawr, sef 1.9c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 14.7c yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r niferoedd isel a gafodd eu lladd yn ystod mis Rhagfyr yn adlewyrchu'r prisiau isel yn ystod y mis. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu y gallai Covid-19 a chlwy Affricanaidd y moch fod yn dylanwadu ar y farchnad. Doedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg a 7kg yng ngwledydd Prydain ddim ar gael ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 09 Ionawr.

Lladdwyd cyfanswm o 819,500 o foch ym mis Rhagfyr yn lladd-dai'r DU, sef 14.1% yn llai nag ym mis Rhagfyr 2019, a'r nifer misol ail-isaf yn 2020. Roedd y gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yn deillio o'r gostyngiad yn nifer y moch heb fagu (-14.1%) a'r hychod a'r baeddod (-13.1%). Roedd pwysau'r cig moch a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr yn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer moch a laddwyd; cynhyrchwyd 73,300 tunnell, sef 10.8% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn 2020 yn 11.0 miliwn (sef 1.1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol) a chynhyrchwyd 1.2% yn fwy o borc, sef 971,100 tunnell.